


# MINECRAFT: EDUCATION EDITION AM DDIM YN YR YSGOL A GARTREF

**Mae'r llwyfan dysgu drwy gemau hwn, sy'n cynnwys nodweddion arbennig ac sydd wedi cael ei ddylunio i'w ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth, ar gael AM DDIM drwy Hwb.**

Mae Minecraft: Education Edition yn hybu creadigrwydd, cydweithio a datrys problemau mewn amgylchedd y gallwch ymgolli ynddo, lle mai'r unig ffin yw'ch dychymyg.

Hwb

Microsoft

# AMSER ADEILADU


Gallwch ddefnyddio Minecraft: Education Edition i ddysgu nifer o bynciau, gan gynnwys dyniaethau, ieithoedd, rhifedd a gwyddoniaeth, ac i lunio gwersi sy'n ymwneud yn uniongyrchol â deilliannau dysgu a chynnwys y cwricwlwm.

Mae Minecraft: Education Edition yn eich galluogi chi i greu cyfleoedd i ddisgyblion weithio ar y cyd ac gweithio'n greadigol yn yr amgylchedd diddorol ac unigryw yma.

Mae Minecraft yn hawdd i oedolion ei ddysgu hefyd, a gall addysgwyr gymryd eu camau cyntaf tuag at ddysgu drwy gemau.



# DYSGU CODIO GYDA MINECRAFT



Mae Minecraft Code Builder yn cael gwared â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag codio, ac mae'n rhoi cyfle i addysgwyr a dysgwyr arbrofi, creu a chwarae er mwyn ymgolli ym myd Minecraft – hyn oll drwy ysgrifennu cod.

Drwy gysylltu â phecynnau dysgu codio, gan gynnwys llwyfan ffynhonnell agored newydd o'r enw Microsoft MakeCode, gall defnyddwyr ddechrau arni drwy ddod o hyd i adnoddau cyfarwydd, templedi a thiwtorialau.

## Pam defnyddio Minecraft: Education Edition yn eich ystafell ddosbarth?

- ✓ Dysgu cyffrous drwy gemau.
- ✓ Annog creadigrwydd ac arloesedd.
- ✓ Amgylchedd diogel ar-lein.

MINECRAFT EDUCATION EDITION

# SUT MAE DECHRAU ARNI

Archebwch le ar hyfforddiant M**inecraft: Education Edition** sy'n cael ei arwain gan Ganolfannau Dysgu Minecraft Hwb.

Ewch i **hwb.llyw.cymru/digwyddiadau** a chwilio am **'Minecraft'**